# 19. Y BEDWERYDD YMADRODD – Paham y'm gadewaist?

**Darllen:** Marc 15: 35-50

Amcangyfrifir i dair awr fynd heibio rhwng y tri ymadrodd cyntaf a'r pedwar olaf, gyda distawrwydd llethol o gwmpas y groes ganol yn y cyfamser. Aeth y prynhawn yn dywyll fel petai byd natur am guddio'r hyn oedd yn digwydd. Ond, yn sydyn, torrwyd ar y tawelwch gan waedd o ing*: 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?'*

Cri o ddiffeithdra, trallod ac unigrwydd llethol! Dyma'r gwir erchylltra yng nghroeshoelio Iesu Grist - nid y fflangellu, yr hoelion, y poeri, y gwawdio a'r gwres, nid y poen corfforol sydd y tu hwnt i ddychymyg y rhan fwyaf ohonom, ond yr ymdeimlad o fod yn amddifad, wedi ei wrthod, ar wahân i bawb a heb Dduw. Dyfynnodd eiriau o Salm 22. Daw'r Salm honno i ben gyda geiriau o gysur ond ni cheir unrhyw awgrym o gysur yma. Am y tro cyntaf, collodd Crist ei gysylltiad â'i Dad. Mae'r berthynas ddwyfol wedi ei thorri a'r gymdeithas wedi ei chwalu. Mae'r dibechod yn yfed cwpan pechod, cwpan chwerw, chwerw. *"Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni"* (2 Corinthiaid 5: 21). Dyma "*Oen Duw yn cymryd ymaith bechod y byd*", gan dalu pris mawr i gyflawni'r gwaith. Er bod yna ddyn bob ochr iddo yn dioddef yr un gosb, er bod yna dorf o gwmpas y groes, er bod ei fam a chyfeillion gerllaw, eto, y mae ar ei ben ei hun, yn dioddef unigedd llwyr. Amhosibl i ddyn ei helpu, ac yr oedd llais Duw yn ddistaw iddo. Roedd yn amddifad, ynysig, unig, diobaith. Ei ddewis ef oedd rhodio'r ffordd dywyll hon er ein mwyn ni ac er mwyn cyhoeddi cariad y Tad tuag atom, ond serch hynny, ni ddaeth yr un ysmotyn o oleuni iddo. Crist sydd yma, yn defnyddio ei ewyllys rhydd i fynd i ganol canlyniadau pechod dyn er mwyn ein rhyddhau o'n caethiwed i'n heilunod. Dyma'r Mab Hynaf yn rhoi ei hun er mwyn ceisio a chadw holl blant afradlon y Tad. Cafodd Dic Evans, llywiwr Bad Achub Moelfre, gyfweliad radio yn sôn am y bad achub yn mynd at long mewn perygl. Rhaid oedd danfon un o'r criw i'r llong er bod hynny y tu hwnt o beryglus. Danfonodd Dic ei fab ei hun: *'Nid oeddwn yn medru gofyn i neb arall fynd. Roedd yn rhy beryglus. Rhaid i mi ddanfon fy mab'*. '*Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab…*' (Ioan 3: 16).

**Gweddi:**

Wrth edrych Iesu ar dy groes.
a meddwl dyfnder d'angau loes,
pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd
a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.
(*Isaac Watts, efel/ William Williams)*